# *Rhaglen Adloniant 2024 – Parti Traeth Rhisga*

**Bydd y brif raglen adloniant rhwng 10am a 4pm. Mae rhai gweithgareddau'n digwydd drwy'r dydd ac eraill yn digwydd nawr ac yn y man drwy gydol y dydd.**

## *Traeth Anferth*



Bydd traeth anferth, yn llawn cadeiriau cynfas a theganau traeth, yn dod i Diroedd Rhisga, gan gynnig amgylchedd diogel ar gyfer diwrnod o hwyl ar y traeth i ddiddanu pawb. Dewch â phicnic, prynu gan y consesiynau ar y safle, neu #DewisLleol a chefnogi'r manwerthwyr yng nghanol y dref.

## *Sioeau Pwnsh a Jwdi*



Bydd sioeau Pwnsh a Jwdi yn cael eu cynnal yn rheolaidd drwy gydol y dydd ar y traeth gan Paul Wheeler! Bydd fersiwn fodern o'r sioe draddodiadol yn cael ei pherfformio i gadw'n gyfoes, ond yn dal i ddefnyddio'r un cymeriadau a'r gwisgoedd traddodiadol.

Amser y sioeau yw 11am, 1pm a 3pm bob dydd.

**Facebook: Paul Wheelers Punch and Judy Show**

## *Cadair Gynfas Anferth*



Neidiwch i'r gadair fawr hon a chael tynnu'ch llun. Rhannwch eich lluniau â ni ar Facebook, Instagram a Twitter (@VisitCaerphilly)!

### *Reidiau ar gefn asynnod*



Mae plant wrth eu bodd â'r anifeiliaid blewog hyn. Reidiau am ddim ar gael trwy'r dydd!

**Facebook: Mike's Donkeys**

### *Fferm Anwesu*





Fferm anwesu AM DDIM i deuluoedd i ddod i adnabod creaduriaid del ac annwyl. Yn cynnwys geifr, defaid, ŵyn, asynnod bychain, cwningod a moch cwta. Gofynnwch gwestiynau am yr anifeiliaid annwyl hyn a dysgu am eu harferion.

**Facebook: Mike’s Donkeys**

### *Gweithdai Crefft Creu a Chymryd*



Dewch draw i wneud crefftau ar thema'r haf… o lolis iâ, hufen iâ a sundaes hufen iâ! Mae'r gweithdy hwn yn cynnig cyfle i blant fod yn greadigol a chael ychydig o hwyl!

**Facebook: Creative Workshops for Children**

***Stondinwyr***



Bydd nifer fach o stondinau yn gwerthu losin a chacennau, yn ogystal â lluniaeth diodydd poeth ac oer, ‘Dinky Donuts’ a'r fan hufen iâ hollbwysig!

**Facebook: Visit Caerphilly**

***Reidiau ac atyniadau ffair hwyl***



Bydd tŷ hwyl traddodiadol, teganau gwynt, trampolinau, a chwpanau a soseri i ddifyrru'r plantos!

***Falconry UK***



Bydd adar ysglyfaethus yn cael eu harddangos i ymwelwyr edrych arnyn nhw, cael lluniau gyda nhw a dysgu am ffeithiau a chefndir hynod ddiddorol y creaduriaid rhyfeddol hyn. (Dydd Sul YN UNIG)

**Facebook: Falconry UK**

***Paentio wynebau***

Trawsnewidiwch yn dywysog, tywysoges, archarwr neu anifail. Mae gan Tracey's Funky Faces y ddawn hudol i'ch trawsnewid chi'n gymeriad o'ch dewis, gan ychwanegu lliw a gliter i wneud i chi ddisgleirio! (Dydd Sadwrn YN UNIG)

**Facebook: Tracey’s Funky Faces**

***Anifeiliad Egsotig gyda Wildlife Displays***




Swricatiaid, nadroedd, madfallod, pryfed cop, sgorpionau, chwilod duon hisian, malwod enfawr ac ati. Ardal ryngweithiol AM DDIM gyda sgyrsiau byr a chyfleoedd ymarferol drwy gydol y dydd.

**Website: www.wildlifedisplays.co.uk**

***Lluniau Traeth***



Mwynhewch luniau hwyl o'r teulu AM DDIM yn y bwth tynnu lluniau hwn!

**Facebook: Craft Wales**

***Pirates***





Mae ‘Event Character Hire South Wales’ yn dod â'r môr-ladron drwg i Risga! A hwythau wedi’u llongddryllio ar draeth Rhisga, mae’n ymddangos nad yw bywyd ar y môr bob amser yn bodloni disgwyliadau! Ymunwch â'n criw o fôr-ladron ysbeilgar wrth iddyn nhw gwrdd a chyfarch a chwilio am griw newydd - ydych chi'n ddigon dewr? Gwyliwch wrth iddyn nhw berfformio sioe môr-ladron hynod o hwyl bob awr a pheidio ag anghofio tynnu cwpl o luniau gyda'r ‘Band of Brigands’ direidus.

**Facebook: Event Character Hire - South Wales**

***Ghostbuster Day Celebration Wales - 40th Anniversary– Saturday 8th June 2024 Only***

Bydd llu o weithgareddau ac atyniadau i’r cyhoedd sy’n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: ceir Ecto One, model maint llawn Zuul y Ci arswydus, model Slimer maint llawn, prop Uned Cyfyngu Cludadwy Digidol, bwth lluniau chwyddadwy dros dro, gorsaf adeiladu/gweithdy, gorsafoedd Zener Card, bythau timau Ghostbusters gyda phropiau, adeiladu arddangosfa prop Ghostbusters a Stay Puft Marshmallow Man chwyddadwy, a fydd wedi'u lleoli yn y parc a'r llyfrgell.

***The Mid Wales Ghostbusters i gefnogi Ambiwlans Awyr Cymru***




Mae rhywbeth rhyfedd yn digwydd yn Rhisga ar 8 a 9 Mehefin a doedden ni ddim yn gwybod pwy i alw heblaw am y Ghostbusters chwedlonol! Bydd y tîm gwych hwn yn mynychu'r digwyddiad i godi arian hollbwysig i Ambiwlans Awyr Cymru. Bydd y plant wrth eu bodd yn cael tynnu eu llun wrth ymyl Ecto Un a Zuul the Terror Dog ******Bydd y grŵp hwn yn bresennol ar y ddau ddiwrnod***

**Facebook: The Mid Wales Ghostbusters**

## *Preston City Ghostbusters*







Rydyn ni'n dîm o unigolion brwdfrydig o gefndiroedd amrywiol sydd wedi dod at ein gilydd oherwydd ein cariad at bopeth Ghostbusters. Dechreuodd ein taith ‘busting’ ym mis Hydref 2019, ac, ychydig fisoedd yn ddiweddarach, cafodd Preston City Ghostbusters ei ffurfio'n swyddogol. Dros y blynyddoedd, rydyn ni'n falch o fod wedi gweithio ochr yn ochr â nifer o elusennau a grwpiau codi arian, hyd yn oed yn cynnal ein digwyddiadau ein hunain mewn partneriaeth ag Odeon Cinema ar gyfer yr elusen MIND. Ein hangerdd gwirioneddol, fodd bynnag, yw cael hwyl ac, yn benodol, cyflwyno’r byd Ghostbusters i genedlaethau newydd a phrofi nad oes angen iddyn nhw ofni ysbrydion!

## *The Carmarthenshire Ghostbusters*









Fe wnes i ddechrau yn ôl yn 2016 ac, yn bennaf, rydw i wedi bod yn codi arian ar gyfer LATCH, elusen canser plant Cymru yng Nghaerdydd. Rydyn ni wedi cael sawl aelod yn ymuno â ni a gadael dros y blynyddoedd, ond rydyn ni'n dal i anelu at gael hwyl. Rydw i'n mynd i ddigwyddiadau a phartïon elusennol ledled Cymru ac yn mwynhau pob munud ohonyn nhw. Mae'r grŵp yn llawn cyffro am ddod i'r digwyddiad!

## *The Bristol Ghostbusters*









Mae The Bristol Ghostbusters wedi bodoli ar ryw ffurf neu ffasiwn ers tua 2001, gyda dim ond cwpl o 'busters' a dim enw masnachfraint. Fe wnaeth ein haelodau cynharaf fabwysiadu'r enw The Bristol Ghostbusters tua 2009, pan wnaeth cyfryngau cymdeithasol hi'n haws dod o hyd i unigolion eraill o'r un anian. Mae ein grŵp wedi ehangu ers hynny oherwydd bod ffrindiau ac aelodau o'r teulu wedi ymuno â'r tîm, yn ogystal â chwrdd â phobl leol eraill sy'n dwli ar y pwnc a oedd am ddod o hyd i grŵp i fwynhau 'busting' ag ef. Rydyn ni'n grŵp amrywiol iawn sy'n hyrwyddo goddefgarwch a chynhwysiant. Dros y degawd diwethaf, rydyn ni wedi bod yn bresennol mewn nifer o ddigwyddiadau fel arddangoswyr, gan ddiddanu'r cyhoedd gan hefyd yn gwneud ein gorau i godi arian ar gyfer ein helusennau dewisol. Roedden ni'n bwriadu mynd i ddigwyddiadau fel Ghostbusters beth bynnag, felly, beth am wneud hynny at achos da?

Mae The Bristol Ghostbusters yn ymwneud â chael hwyl, mwynhau'r angerdd a helpu pobl eraill. O oedolion gyda phecynnau proton sgrin gywir, i blant sydd wedi gwneud trapiau ysbrydion gan ddefnyddio bocsys esgidiau, does dim byd gwell na chwrdd â phobl eraill sy'n dwli ar Ghostbusters. Mae gallu rhannu ein cariad tuag at wisgoedd er budd achosion elusennol  yn uchafbwynt.

***EPIC Props***





Fe wnaeth Russ ddechrau EPIC Props yn ôl yn 2011 o'i sied yn yr ardd. Mae bob amser wedi mwynhau adeiladu pethau, a phan sylweddolodd bod modd cyfuno ei hoff hobi â ffilm fwyaf annwyl ei blentyndod, 'Ghostbusters', daeth EPIC Props i'r amlwg. Tyfodd y busnes yn araf gan ei fod yn dal i weithio'n amser llawn yn ogystal ag adeiladu, ond yn raddol, dechreuodd gael mwy o archebion. Roedd yn fater o geisio cydbwyso popeth yn iawn, nad oedd bob amser yn hawdd. Yn ystod 2020 a thrwy gydol y pandemig, parhaodd i adeiladu ond, yn anffodus, roedd amgylchiadau'n golygu bod yn rhaid iddo fe ganolbwyntio ar ymrwymiadau eraill am gyfnod, a oedd yn benderfyniad anodd i'w wneud, ond yn angenrheidiol. Ar ôl y pandemig, bu'n gweithio'n galed, gan gael a sefydlu gweithdy newydd a gwell. Hefyd, daeth Simon yn rhan o'r busnes i'w helpu ei redeg. Mae popeth wedi'i wneud â llaw, gan ddefnyddio deunyddiau o ansawdd gorau ar y farchnad yn unig i gynhyrchu gorffeniad proffesiynol iawn. O rannau Pecyn Proton i addurniadau ar gyfer y goeden Nadolig, gallwn ni adeiladu unrhyw beth rydych chi ei eisiau, naill ai'n llawn neu'n rhannau.

***Llyfrgell Rhisga***




Mae amrywiaeth o weithgareddau yn barod i chi yn Llyfrgell Rhisga, gan gynnwys amser stori Ghostbusters, gorsaf Zener Card, tafluniadau ysbrydion, parti gwisg ffansi Ghostbusters, helfa ysbrydion, crefftau, taflenni gweithgareddau a thaflenni lliwio Ghostbusters, her Lego, gwneud sleim yn ogystal â bwth lluniau gwych! Bydd modd cael lluniau am dâl bach. Bydd propiau ar thema Ghostbusters yn cael eu darparu i'w defnyddio yn y bwth.

Bydd copïau digidol yn costio £2.00, copïau printiedig £2.50 neu 3 am £5.00, cylchoedd allweddi £3.00 yr un neu 2 am £5.00. Mae llogi bwth preifat wedi'i amserlennu ar gael i grwpiau neu unigolion am £10.00 am logi bwth 5 munud (yn cynnwys 4 print) a £15.00 am logi bwth 10 munud (yn cynnwys 8 print). Arian parod yn unig.

**Gwasanaeth Llyfrgell Caerffili - Caerphilly Library Service**